COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 3 A GYNHALIWYD DRWY DDULL HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEN, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB, 20 IONAWR 2025 AM 16:00

Yn bresennol

CynghoryddJPD Blundell - Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| S J Bletsoe | I Williams | MJ Williams |

Yn bresennol yn rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| C Davies | P W Jenkins | J E Pratt | G Walter |
| N Clarke | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins, MJ Kearn and W J Kendall

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd John Spanswick | Arweinydd |
| Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant |
| Cynghorydd Paul Davies | Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd |
| | |
| Mark Shepherd | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau |
| | |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Victoria Adams | Rheolwr Cyllid – Cymunedau, Addysg, Y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |

Datgan Buddiant

Cynghorydd Martin Williams – Personol – Aelod o Gyngor Cymuned Coety Uchaf sy’n prosesu cynllun mawr i Drosglwyddo Ased Cymunedol

## 91. Cymeradwyo'r Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3, dyddiedig 2 Rhagfyr 2024, yn gywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Ionawr 2025 |

## 92. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2025-26 i 2028-29

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau ag Aelodau’r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a’r ceisiadau am wybodaeth ychwanegol a ganlyn:<br><br>**Argymhellion:**<br><br>Pwysau Cyllidebol<br><br>1. Trafododd yr Aelodau’n fanwl y cyllid refeniw ychwanegol fyddai ei angen, yn ychwanegol at y gyllideb gyfredol, i weithredu'r gwasanaeth gwastraff fel gwasanaeth mewnol o 2026-27, fel y cytunwyd gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2024. Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried adroddiad Gwastraff y Dyfodol ar 30 Medi 2024, roedd yr Aelodau wedi teimlo bod angen mwy o ymchwilio i gael |

| | |
|---|---|
| | dadansoddiad pellach ynghylch a ddylid dod â'r gwasanaeth yn fewnol ai peidio, ac argymhellwyd hefyd y dylid ystyried y posibilrwydd o ymestyn y contract presennol.<br><br>Roedd yr Aelodau'n siomedig nad oedd hi'n ymddangos fel pe bai argymhellion blaenorol y Pwyllgor wedi cael eu hystyried, a bod £1.2 miliwn o bwysau ar y gyllideb bellach, ynghynt nag yr oedd ei angen.<br><br>**Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid rhoi ystyriaeth eto i'r posibilrwydd o ddod â'r gwasanaeth yn fewnol, y dylid gwneud gwaith modelu a dadansoddi pellach ac y dylid gohirio trafod y contract cyfredol am flwyddyn arall i gael dealltwriaeth well o'r sefyllfa. Roedd yr Aelodau'n bryderus y gallai'r costau a ragwelwyd a'r pwysau cysylltiedig ar y gyllideb ar gyfer y set hon ar gyfer 2026-27 ddod i'r amlwg yn ystod 2025-26 a hefyd, y gallai pwysau cylchol pellach godi wedyn y flwyddyn nesaf.<br><br>2. Trafododd yr Aelodau'r pwysau cyson ar y gyllideb yn gysylltiedig â chau Marchnad Pen-y-bont ar Ogwr a'r 300k cylchol y flwyddyn a oedd yn dal i gael ei dalu ar y brydles, yn ogystal â chostau dal a thalu am gostau'r neuadd farchnad fach a agorwyd yng nghanolfan y Rhiw lle mae 5 masnachwr yn gweithredu ar hyn o bryd. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod penderfyniad yn dal heb ei wneud ynghylch dyfodol Neuadd y Farchnad Pen-y-bont ar Ogwr ei hun.<br><br>Oherwydd y brydles can mlynedd a gychwynnwyd i ddechrau yn 1971, mynegodd yr Aelodau bryder y gallai'r awdurdod fod yn talu 300k allan am y 47 mlynedd nesaf a fyddai'n cronni'n filiynau o bunnoedd.<br><br>**Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid archwilio'r cytundeb hwn ymhellach i ganfod datrysiad hirdymor ac ymdrin â'r pwysau hyn ar y gyllideb.<br><br><u>Cynigion Lleihau Cyllideb</u><br><br>3. Trafododd yr Aelodau'r gostyngiad parhaus mewn incwm ar draws y gwasanaethau a manylion y cwymp cyffredinol yn incwm y meysydd parcio.<br><br>Ers y pandemig, eglurodd y swyddogion fod yr Awdurdod wedi gweld gostyngiad yn yr holl feysydd parcio, ac eithrio Porthcawl, ym meysydd parcio Llyn Halen a Rest Bay, lle mae nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu. |

| | |
|---|---|
| | O'u profiad eu hunain, mynegodd yr aelodau fod y meysydd parcio ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn aml iawn yn llawn, ac o ystyried y cynlluniau i adfywio Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, byddai'n hanfodol sicrhau rhagor o ddarpariaeth parcio ceir. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid gwneud gwaith archwilio pellach ac edrych ar dystiolaeth, ac adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ynghylch y ddarpariaeth parcio ceir yng nghanol y dref, a'r pwysau ar y gyllideb yn ei chyfanrwydd.<br><br>4. Cynhaliodd yr Aelodau drafodaeth estynedig ynghylch y gostyngiad yn nifer y staff sy'n cyflawni gweithgareddau gorfodi yn gysylltiedig â gwastraff. Roedd y Pwyllgor yn bryderus ynghylch y methiant i gyhoeddi hysbysiadau gorfodi ar hyn o bryd, ac yn ofni beth fyddai canlyniad cwtogi'r tîm gorfodi i'r fath raddau sylweddol.<br><br>Gan gydnabod bod y baich profi yn gwneud pethau'n anodd, roedd yr Aelodau'n pryderu'n fawr fod perygl y byddai llai o allu i ymateb i'r materion hyn o gyflwyno'r toriad, felly anogodd ac **argymhellodd** y Pwyllgor y dylai'r Cabinet ailedrych ar y gostyngiad gyda golwg ar gael gwared ohono neu leihau'r gostyngiad yn y cynnig.<br><br>5. Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch y gostyngiadau i'r gyllideb yn gysylltiedig â ffioedd cynyddol am wasanaethau Profedigaeth, h.y. codi ffioedd claddu 20%, a rhoi'r gorau i gyflenwi sachau gwastraff glas i'r holl drigolion ddwywaith y flwyddyn. Teimlai'r Pwyllgor y gallai'r cynigion hyn, yn enwedig y cynnydd mewn ffioedd claddu, gael cryn effaith ar y cyhoedd, ac **argymhellwyd** os oedd unrhyw hyblygrwydd neu gyllid ychwanegol a allai fod ar gael, neu newidiadau i gynigion y gyllideb, y dylid rhoi'r flaenoriaeth i ailystyried y gostyngiadau hyn ac naill ai gael gwared ohonynt yn llwyr neu, yn achos y cynnydd o 20% a gynigiwyd i ffioedd claddu, eu gostwng o leiaf.<br><br><u>Argymhellion Atodol</u><br><br>6. Trafododd yr Aelodau Orsaf Metrolink Porthcawl a'r cyfiawnhad dros orfod talu costau refeniw parhaus. Mynegwyd eu rhwystredigaeth na chawsant wybod, wrth graffu ar yr Orsaf Metrolink yn wreiddiol, am y costau parhaus o £100,000 y flwyddyn nes i'r ailddatblygiad arall fynd rhagddo.<br><br>**Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ymchwilio i unrhyw rwymedigaethau refeniw posibl yn gysylltiedig â rhaglenni a phrosiectau cyfalaf yn y dyfodol, a'u rhagweld hyd y bo modd, a'u datgelu'n llawn wrth wneud y penderfyniadau, yn enwedig yn y cyfnod hwn o gyni ariannol. |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

<table>
<tr><td></td><td>
7. Mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch cyflwr presennol y priffyrdd yn y Fwrdeistref Sirol a'r amser a gymerwyd i weithredu ynghylch unrhyw broblemau a adroddwyd. Holodd yr Aelodau a oedd y cynnydd arfaethedig o oddeutu £1M ar gyfer cyllid Cyfalaf yn ddigon i dalu am y gwaith sydd ei angen yn y flwyddyn i ddod. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid ystyried a oes unrhyw gyllid ychwanegol y gellid ei ddyrannu i'r gyllideb hon i sicrhau bod Priffyrdd yn cael eu cynnal hyd at y safon orau bosib.<br><br>
8. <u>Y Flaenraglen Waith</u><br><br>
Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Grŵp Llywio Trosglwyddo Asedau Cymunedol (TAC) (naill ai ar ei ben ei hun neu drwy ddefnyddio cymorth gwrthrychol allanol) asesu ac adolygu rhaglen TAC gyfredol y Cyngor, ac ystyried ei heffaith, a’i straeon o lwyddiant, ymchwilio i unrhyw arfer da gan awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ac ystyried a ellir dysgu unrhyw wersi i symud ymlaen a gwella rhaglen TAC y Cyngor yn y dyfodol.<br><br>
Gwybodaeth ychwanegol:<br><br>
Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaeth â'r Aelod Cabinet, Swyddogion a Gwahoddedigion, gwnaeth y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn am wybodaeth:<br><br>
9. Gofynnodd yr aelodau am ffigurau i ddangos incwm, gwariant a'r gost gyffredinol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer gwasanaethau claddu.<br><br>
10. Gofynnodd yr Aelodau i'r Swyddogion am eglurhad ynghylch yr hyn y mae Awdurdodau Lleol eraill yn ei ddarparu o ran cyflenwi sachau sbwriel glas i drigolion.<br><br>
11. Yn dilyn penodi 2 x Swyddog A.106, i hwyluso Tîm Cyflawni A.106 a Seilwaith o fewn y Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y gallai'r Swyddogion hyn o bosib ddod draw i SOSC 3 i egluro eu rolau.
</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Gwneud y Penderfyniad</td><td>20 Ionawr 2025</td></tr>
</table>

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## 93. Y Diweddaraf am y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys yr argymhelliad isod, yn nodi'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B ac yn nodi y byddai'r Flaenraglen Waith fel yr oedd wedi'i chymeradwyo gan y Pwyllgor yn cael ei hadrodd gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol:<br><br>1. Gofynnodd y Pwyllgor am gael ychwanegu canlyniad yr adolygiad sydd i'w gynnal gan y Grŵp Llywio TAC, y cyfeirir ato yn Argymhelliad 8 uchod, at Flaenraglen Waith y Pwyllgor. Gofynnodd y Pwyllgor am wahodd sampl o Gynghorau Tref a Chymuned sydd â phrofiad o TAC i fod yn bresennol ar gyfer yr eitem hon i rannu eu profiadau, eu heriau ac arfer gorau ac ati. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Ionawr 2025 |

## 94. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Ionawr 2025 |

I weld y drafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:17pm.

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**